



Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018

2018 dccc 5

Nodiadau Esboniadol

Public Health (Minimum Price for Alcohol) (Wales) Act 2018

2018 anaw 5

Explanatory Notes

£6.90

DEDDF IECHYD Y CYHOEDD (ISAFBRIS AM ALCOHOL) (CYMRU) 2018

NODIADAU ESBONIADOL

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 19 Mehefin 2018 ac a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 9 Awst 2018.
2. Fe'u lluniwyd gan Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf.
3. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Ddeddf ond nid ydynt yn rhan ohoni. Ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Ddeddf. Os ymddengys nad oes angen rhoi esboniad neu sylw ar ddarpariaeth yn y Ddeddf, nis rhoddir.

CRYNODEB A CHEFNDIR

4. Nod y Ddeddf yw mynd i'r afael â phryderon Llywodraeth Cymru o ran y niwed i iechyd a'r niwed cymdeithasol a all gael eu hachosi o ganlyniad i effeithiau goryfed alcohol.
5. Datblygwyd y Ddeddf hon yn dilyn ymgynghoriad ar Bapur Gwyn Iechyd y Cyhoedd 'Gwrando arnoch chi: Mae eich iechyd yn bwysig' yn 2014, a oedd yn cynnwys cyfres o gynigion deddfwriaethol er mwyn mynd i'r afael â nifer o faterion iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Un o'r cynigion hyn oedd cynnig i gyflwyno isafbris uned am alcohol. Wedi hynny, dyroddwyd Bil drafft Iechyd y Cyhoedd (Isafbris Alcohol) (Cymru) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus am gyfnod o bum mis ym mis Gorffennaf 2015.
6. Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ynhghylch yr isafbris y mae alcohol i gael ei gyflenwi amdano yng Nghymru i berson yng Nghymru ac yn sefydlu gweithdrefn orfodi a arweinir gan yr awdurdod lleol.
7. Yn y Ddeddf ceir 30 o adrannau ac Atodlen.

SYLWEBEAETH AR YR ADRANNAU

Adran 1: Isafbris am alcohol

8. Mae'r adran hon yn nodi'r fformiwla i gyfrifo'r isafbris gwerthu am alcohol.
9. Y fformiwla yw $I \times Cr \times Cy$, ac—
 - (a) I yw'r isafbris uned (i gael ei bennu mewn rheoliadau);

PUBLIC HEALTH (MINIMUM PRICE FOR ALCOHOL) (WALES) ACT 2018

EXPLANATORY NOTES

INTRODUCTION

1. These Explanatory Notes are for the Public Health (Minimum Price for Alcohol) (Wales) Act 2018 which was passed by the National Assembly for Wales on 19 June 2018 and received Royal Assent on 9 August 2018.
2. They have been prepared by the Welsh Government's Department for Health and Social Services in order to assist the reader of the Act.
3. The Explanatory Notes should be read in conjunction with the Act but are not part of it. They are not meant to be a comprehensive description of the Act. Where a provision of the Act does not seem to require any explanation or comment, none is given.

SUMMARY AND BACKGROUND

4. The aim of the Act is to address the Welsh Government's concerns around the health and social harms that can be caused by the effects of excess alcohol consumption.
5. This Act has been developed following consultation on the Public Health White Paper 'Listening to you: Your health matters' in 2014, which included a series of legislative proposals to address a number of public health issues in Wales. One of these was a proposal to introduce a minimum unit price for alcohol. Subsequently, a draft Public Health (Minimum Price for Alcohol) (Wales) Bill was issued by the Welsh Government for a five month period of public consultation in July 2015.
6. The Act makes provision about the minimum price for which alcohol is to be supplied in Wales to a person in Wales and establishes a local authority led enforcement regime.
7. The Act is comprised of 30 sections and a Schedule.

COMMENTARY ON SECTIONS

Section 1: Minimum price for alcohol

8. This section sets out the formula to calculate the minimum selling price for alcohol.
9. The formula is $M \times S \times V$, where -
 - (a) M is the minimum unit price (to be specified in regulations);
 - (b) S is the percentage strength of the alcohol, expressed as a cardinal number (so for instance if the strength is 5%, the relevant cardinal number will be 5);
 - (c) V is the volume of alcohol in litres.

- (b) Cr yw cryfder canrannol yr alcohol, a fynegir fel rhif prifol (felly er enghraifft os yw'r cryfder yn 5%, 5 fydd y rhif prifol perthnasol);
 - (c) Cy yw cyfaint yr alcohol mewn litrau.
10. Mae is-adran (2) yn darparu, pan na fyddai'r isafbris gwerthu am yr alcohol a gyfrifir yn ôl y fformiwla hon yn rhif cyfan mewn ceiniogau, ei fod i gael ei dalgrynnu i'r geiniog agosaf gan gymryd bod hanner ceiniog yn nes at y geiniog gyfan i fyny.
 11. Mae'r adran yn darparu enghraifft ymarferol o gyfrifo pris potel o win a sut y mae'r isafbris i gael ei dalgrynnu. Hynny yw, pan fo'r isafbris gwerthu am y botel o win yn cael ei gyfrifo yn ôl y fformiwla fel £4.6875, byddai'n cael ei dalgrynnu i fyny i £4.69.
 12. I roi enghraifft ymarferol arall o sut y byddai'r fformiwla yn gweithio, pe bai'r isafbris uned (I) wedi ei bennu mewn rheoliadau yn 50 ceiniog, byddai gan botel 3 Litr (Cy) o seidr â chryfder (Cr) o 7.5% isafbris gwerthu o £11.25 (0.5 x 7.5 x 3), sef cyfanred tair cydran y fformiwla.
 13. I gael rhagor o enghreifftiau ymarferol o sut y byddai'r fformiwla yn gweithio pan fo alcohol yn cael ei gyflenwi fel rhan o gynnig arbennig, gweler y nodiadau i fynd gydag adrannau 5-7.

Adran 2: Troseddau

14. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn drosedd i berson sy'n fanwerthwr alcohol gyflenwi alcohol, neu awdurdodi cyflenwi alcohol, o fangre gymhwysol yng Nghymru, i berson yng Nghymru, am bris gwerthu sy'n is na'r isafbris cymwys. Mae i'r termau "manwerthwr alcohol", "cyflenwi alcohol" a "mangre gymhwysol" ystyr benodol at y diben hwn fel y'i nodir yn adrannau 3 a 4.
15. Mae is-adran (2) yn darparu amddiffyniad i berson sydd wedi ei gyhuddo o'r drosedd i ddangos iddo gymryd camau rhesymol ac arfer diwydrwydd dyladwy i osgoi ei chyflawni. Os dibynnir ar yr amddiffyniad, mae is-adran (3) yn egluro ble y mae'r baich profi. Os codir tystiolaeth ddigonol, yr erlyniad sydd â'r baich o wrthbrofi'r amddiffyniad y tu hwnt i amheuaeth resymol.
16. Mae is-adran (4) yn darparu nad yw o bwys at ddibenion y drosedd a awdurdodir cyflenwi'r alcohol yng Nghymru neu yn rhywle arall. Felly, er enghraifft, os yw manwerthwr alcohol yn Lloegr pan yw'n awdurdodi cyflenwi alcohol yn is na'r isafbris cymwys o fangre gymhwysol yng Nghymru, ac i berson yng Nghymru, bydd y manwerthwr hwnnw (yn ddarostyngedig i unrhyw amddiffyniad sydd ar gael) yn cyflawni trosedd.
17. Mae'r adran hon hefyd yn diwygio Atodlen 4 i Ddeddf Trwyddedu 2003 er mwyn ychwanegu trosedd a gyflawnir o dan y Ddeddf at y rhestr o "troseddau perthnasol" a geir yn yr Atodlen honno.
18. Arwyddocâd cynnwys trosedd yn y rhestr o "troseddau perthnasol" yw bod awdurdod trwyddedu yn gallu ystyried euogfarn am drosedd o'r fath, oni bai ei bod wedi ei disbyddu o dan delerau Deddf Adsefydlu Troseddwy'r 1974, wrth iddo wneud penderfyniadau ynghylch rhoi neu ddirymu trwyddedau personol neu eu

10. Subsection (2) provides that where the minimum selling price for the alcohol calculated according to this formula would not be a whole number in pennies, it is to be rounded to the nearest penny taking a half penny as being nearest to the whole penny above.
11. The section provides a practical example of a calculation relating to a bottle of wine and how the minimum price is to be rounded. That is, where the minimum selling price for the bottle of wine is calculated according to the formula as £4.6875, this would be rounded up to £4.69.
12. To give another practical example of how the formula would work if the minimum unit price (M) was specified in regulations as being 50 pence, a 7.5% strength (S), 3 Litre (V) bottle of cider would have a minimum selling price of £11.25 ($0.5 \times 7.5 \times 3$) being the aggregate of the three components of the formula.
13. For further practical examples of how the formula would work where alcohol is supplied as part of a special offer, please see the notes to accompany sections 5-7.

Section 2: Offences

14. This section makes it an offence for a person who is an alcohol retailer to supply alcohol, or to authorise the supply of alcohol, from qualifying premises in Wales, to a person in Wales, at a selling price below the applicable minimum price. The terms "alcohol retailer", "supply of alcohol" and "qualifying premises" have a particular meaning for this purpose as set out in sections 3 and 4.
15. Subsection (2) provides a defence for a person charged with the offence to show that they took reasonable steps and exercised due diligence to avoid committing it. If the defence is relied on, subsection (3) clarifies where the burden of proof lies. If sufficient evidence is raised, the burden of disproving the defence beyond reasonable doubt rests with the prosecution.
16. Subsection (4) provides that it does not matter for the purposes of the offence, whether the authorisation of the supply of alcohol takes place in Wales or elsewhere. So, for instance, if an alcohol retailer is in England when he or she authorises a supply of alcohol below the applicable minimum price from qualifying premises in Wales, and to a person in Wales, that retailer will (subject to any available defence) commit an offence.
17. This section also amends Schedule 4 to the Licensing Act 2003 so as to add an offence committed under the Act to the list of "relevant offences" contained in that Schedule.
18. The significance of inclusion within the list of "relevant offences" is that conviction for such an offence, unless spent under the terms of the Rehabilitation of Offenders Act 1974 can be taken into consideration by a licensing authority when making decisions on granting, revoking or suspending personal licences under the Licensing Act 2003. In Wales, a licensing authority is the council of a county or county borough.

hatal dros dro o dan Ddeddf Trwyddedu 2003. Yng Nghymru, mae awdurdod trwyddedu yn gyngor sir neu'n gyngor bwrdeistref sirol.

19. Mae Deddf Trwyddedu 2003 hefyd yn gosod dyletswyddau penodol ar bersonau sydd wedi eu heuogfarnu o "trosedd berthnasol" i hysbysu'r awdurdod trwyddedu perthnasol am euogfarn o'r fath cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol (ac mae'n darparu y bydd person yn cyflawni trosedd os yw'n methu heb esgus rhesymol â chydymffurfio â'r gofynion hyn). Yn yr un modd, mae Deddf Trwyddedu 2003 yn gosod rhwymedigaethau penodol ar y llys mewn perthynas â "troseddau perthnasol" ac yn darparu y caiff llys hefyd orchymyn i drwydded bersonol gael ei fforffedu neu ei hatal dros dro am gyfnod nad yw'n hwy na chwe mis.

Adran 3: Ystyr "cyflenwi alcohol" a "mangre gymhwysol"

20. Mae'r adran hon yn diffinio "cyflenwi alcohol" fel gwerthu drwy fanwerthu alcohol i berson yng Nghymru, neu gyflenwi gan neu ar ran clwb i un o'i aelodau yng Nghymru, neu i berson yng Nghymru ar ran aelod o'r clwb. (Enghraifft bosibl o glwb at y diben hwn fyddai clwb rygbi neu glwb arall lle y mae aelodau wedi ymuno â'i gilydd at ddiben penodol.)
21. Mae i "gwerthu drwy fanwerthu" at y diben hwn yr un ystyr â "sale by retail" yn Neddf Trwyddedu 2003. Bydd pa un a yw trafodiad penodol sy'n ymwneud ag alcohol yn achos o "gwerthu drwy fanwerthu" yn dibynnu ar ffeithiau pob achos.
22. Diffinnir "mangre gymhwysol" hefyd yn yr adran hon. Mae is-adran (2) yn darparu bod mangre yn "mangre gymhwysol":-
 - (a) os yw trwydded mangre o dan Ran 3 o Ddeddf Trwyddedu 2003 yn awdurdodi defnyddio'r fangre i gyflenwi alcohol (er enghraifft, mangre oedd lle y gwerthir alcohol i'r cyhoedd megis tafarndai neu archfarchnadoedd);
 - (b) os yw dystysgrif mangre clwb o dan Ran 4 o Ddeddf Trwyddedu 2003 yn ardystio y caniateir i'r fangre gael ei defnyddio i gyflenwi alcohol (er enghraifft, gallai hon fod yn glwb rygbi); neu
 - (c) os yw cyflenwi alcohol yn y fangre neu o'r fangre yn weithgaredd dros dro a ganiateir o dan Ran 5 o Ddeddf Trwyddedu 2003. Er enghraifft, gallai hyn fod pan fo alcohol yn cael ei gyflenwi mewn gŵyl fach neu ffair stryd.

Adran 4: Ystyr "manwerthwr alcohol"

23. Mae'r adran hon yn diffinio manwerthwr alcohol mewn perthynas â phob un o'r mathau gwahanol o fangre oedd cymhwysol.
24. Pan fo alcohol yn cael ei gyflenwi o fangre y mae trwydded wedi ei rhoi mewn cysylltiad â hi o dan Ran 3 o Ddeddf Trwyddedu 2003 (er enghraifft, tafarn neu archfarchnad), mae pob un o'r canlynol yn fanwerthwr alcohol at ddiben y Ddeddf:
 - (a) deiliad trwydded bersonol o dan Ran 6 o Ddeddf Trwyddedu 2003;
 - (b) goruchwyliwr dynodedig y fangre o dan Ddeddf Trwyddedu 2003.
25. Mewn perthynas â chlybiau, y manwerthwr alcohol yw deiliad y dystysgrif mangre clwb (er enghraifft, y clwb).

19. The Licensing Act 2003 also places certain duties on persons convicted of a “relevant offence” to notify the relevant licensing authority of such a conviction as soon as reasonably practicable (and provides that a person commits an offence if they fail without reasonable excuse to comply with these requirements). Likewise, the Licensing Act 2003 places certain obligations on the court in relation to “relevant offences” and provides that a court may also order the forfeiture of a personal licence or its suspension for a period not exceeding six months.

Section 3: Meaning of “supply of alcohol” and “qualifying premises”

20. This section defines the “supply of alcohol” as being the sale by retail of alcohol to a person in Wales, or the supply by or on behalf of a club to one of its members in Wales, or to a person in Wales on behalf of a member of the club. (An example of a club for this purpose could be a rugby club or another club where members have joined together for a particular purpose.)
21. “Sale by retail” for this purpose has the same meaning as in the Licensing Act 2003. Whether a particular transaction involving alcohol is a “sale by retail” will depend on the facts of each case.
22. “Qualifying premises” are also defined in this section. Subsection (2) provides that premises are “qualifying premises” if:-
- (a) a premises licence under Part 3 of the Licensing Act 2003 authorises the premises to be used for the supply of alcohol (for instance, premises where alcohol is sold to the public such as pubs or supermarkets);
 - (b) a club premises certificate under Part 4 of the Licensing Act 2003 certifies that the premises may be used to supply alcohol (for instance, this could be a rugby club); or
 - (c) the supply of alcohol on or from the premises is a permitted temporary activity under Part 5 of the Licensing Act 2003. For instance, this could be where alcohol is supplied in a small festival or street fair.

Section 4: Meaning of “alcohol retailer”

23. This section defines “alcohol retailer” in relation to each of the different types of qualifying premises.
24. Where alcohol is supplied from premises in respect of which a licence has been granted under Part 3 of the Licensing Act 2003 (for instance, a pub or supermarket), each of the following is an alcohol retailer for the purpose of the Act:
- (a) a personal licence holder under Part 6 of the Licensing Act 2003;
 - (b) the designated premises supervisor for the premises under the Licensing Act 2003.
25. In relation to clubs, the alcohol retailer is the holder of the club premises certificate (for instance, the club).

26. Mewn perthynas â gweithgareddau dros dro, y manwerthwr alcohol yw defnyddiwr y fangre at ddiben Rhan 5 o Ddeddf Trwyddedu 2003. Er enghraifft, y person sydd wedi trefnu'r ffair stryd, os rhoddodd yr hysbysiad am weithgaredd dros dro o dan Ran 5.

Adrannau 5 i 7: Cyflenwi alcohol fel rhan o gynnig arbennig

27. Mae'r tair adran hyn yn nodi rheolau sy'n berthnasol wrth benderfynu ar yr isafbris cymwys mewn perthynas ag alcohol a gyflenwir drwy amrywiaeth o gynigion arbennig, at ddiben canfod a yw trosedd wedi ei chyflawni o dan adran 2.
28. Mae'r cynigion arbennig a nodir gan yr adrannau hyn yn dod o dan ddau gategori eang: trafodion alcohol amleitem (adran 5) ac alcohol a gyflenwir ynghyd â nwyddau eraill a gwasanaethau (adran 6). Mae adran 7 yn gwneud darpariaeth atodol ynghylch y ddau gategori hyn.

Trafodiadau alcohol amleitem (adran 5)

29. Y categori cyntaf yw "trafodiadau alcohol amleitem" a ddiffinnir gan adran 5; trafodiadau yw'r rhain a all gynnig cymelliadau i gwsmeriaid i brynu cyfeintiau uwch o alcohol nag y byddent fel arall o bosibl. Mae'r mathau hyn o fargeinion yn cynnwys cynigion "prynu un, cael un yn rhad ac am ddim".
30. Mae'r adran hon yn gymwys pan fo rhan o'r alcohol a gyflenwid mewn trafodiad wedi ei ddisgrifio fel pe bai'n cael ei gyflenwi yn rhad ac am ddim pan oedd alcohol arall yn cael ei gyflenwi; a phan oedd alcohol yn cael ei gyflenwi am bris gostyngol neu bris penodol pan oedd yn cael ei brynu gydag alcohol arall, neu pan oedd alcohol arall eisoes wedi ei gyflenwi. Mae'n debygol y byddai'r rhan fwyaf o drafodiadau alcohol amleitem yn golygu bod cyflenwr a chwsmer yn cyfnewid arian parod unwaith, ond ni fydd hyn yn wir bob tro. Er enghraifft, gallai pris diod a brynid yn ddilynol gael ei leihau drwy gyfeirio at ddiodydd a brynid yn gynharach. Effaith yr adran hon o dan yr amgylchiadau hyn yw y bydd angen i'r diod a brynid yn ddilynol a'r diodydd a brynid yn gynharach oll gael eu trin fel un trafodiad ac i'r isafbris uned cymwys gael ei gyfrifo fel y nodir yn yr adran.
31. Mae adran 5 yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl alcohol a gyflenwir mewn trafodiad alcohol amleitem gael ei ystyried wrth benderfynu ar yr isafbris cymwys. Mae'r gofyniad hwn yn osgoi amheuaeth ynghylch sut y mae'r drosedd yn adran 2 yn effeithio ar achosion pan na fo gan ddogn o'r alcohol a gyflenwir mewn trafodiad unrhyw bris gwerthu y gellir ei nodi, neu pan fo ganddo bris gwerthu sydd wedi ei aflunio drwy ostyngiad.

Alcohol a gyflenwir ynghyd â nwyddau eraill a gwasanaethau (adran 6)

32. Mae'r ail o'r ddau gategori o gynigion arbennig yn cynnwys bargeinion pan fo alcohol yn cael ei gyflenwi ynghyd â nwyddau ac eithrio alcohol, neu wasanaethau; naill ai pan fo'r nwyddau eraill neu'r gwasanaethau a'r alcohol yn cael eu cyflenwi am un pris penodol, neu pan fo alcohol yn cael ei gyflenwi am bris gostyngol os yw nwyddau eraill neu wasanaethau yn cael eu cyflenwi.
33. Byddai adran 6(2), er enghraifft, yn gymwys pan fo coctel yn cael ei gyflenwi, gyda chymysgydd, am bris penodol (gyda'r dogn dialcoholaid o'r coctel yn gyfystyr â nwydd ac eithrio alcohol).

26. In relation to temporary activities, the alcohol retailer is the premises user for the purpose of Part 5 of the Licensing Act 2003. For instance, the person who has organised the street fair, if they gave the temporary event notice under Part 5.

Sections 5 to 7: Supply of alcohol as part of a special offer

27. These three sections set out rules relevant to determining the applicable minimum price in relation to alcohol supplied through a variety of special offers, for the purpose of ascertaining whether an offence has been committed under section 2.
28. The special offers captured by these sections fall into two broad categories: multi-buy alcohol transactions (section 5) and alcohol supplied together with other goods and services (section 6). Section 7 makes supplementary provision about both of these.

Multi-buy alcohol transactions (section 5)

29. The first category is the “multi-buy alcohol transactions” defined by section 5; these are transactions which may offer customers incentives to purchase higher volumes of alcohol than might otherwise be the case. These kinds of deals are commonly known as multi-buy deals, including “buy one, get one free” offers.
30. This section applies where some of the alcohol supplied in a transaction was described as being supplied free of charge where other alcohol was supplied; and where alcohol was supplied at a discounted or fixed price when purchased with other alcohol, or where other alcohol had already been supplied. It is likely that most multi-buy alcohol transactions would involve a single exchange of cash between supplier and customer, but this won’t always be the case. For instance, the price of a subsequently purchased drink might be reduced by reference to earlier purchases of drinks. The effect of this section is that in these circumstances the subsequently purchased drink and the earlier drinks will all need to be treated as a single transaction and the applicable minimum price calculated as set out in the section.
31. Section 5 requires all of the alcohol supplied in a multi-buy alcohol transaction to be taken into account when determining the applicable minimum price. This requirement avoids doubt about how the offence in section 2 affects cases where a portion of the alcohol being supplied in a transaction has no identifiable selling price, or a selling price which has been distorted by the operation of a discount.

Alcohol supplied together with other goods and services (section 6)

32. The second of the two categories of special offers involves deals where alcohol is supplied together with goods other than alcohol, or services; either where the other goods or services and the alcohol are supplied at a single, fixed, price, or where alcohol is supplied at a discounted price if other goods or services are supplied.
33. Section 6(2) would, for example, apply where a cocktail was supplied, with mixer, for a fixed price (the non-alcoholic portion of the cocktail constituting a good other than alcohol).

34. Mae llawer o'r cynigion y bydd yr adran hon yn gymwys iddynt yn debygol o fod yn gynigion sy'n cynnwys cyflenwi alcohol ynghyd â bwyd, ond nid ydynt yn gyfyngedig i achosion o'r fath.

Cynigion arbennig: atodol (adran 7)

35. Pan fo'r alcohol a gyflenwir mewn cynnig arbennig o gryfderau gwahanol, mae adran 7(2) yn ei gwneud yn ofynnol i gyfrifiadau ar wahân gael eu gwneud i benderfynu ar yr isafbris cymwys mewn perthynas â'r cryfderau gwahanol o alcohol. Mae cyfanswm y cyfrifiadau hynny yn darparu'r isafbris cymwys.
36. Mae adran 7(3) yn sicrhau bod gofynion adran 6 yn gymwys pan fo'r alcohol a gyflenwir gyda nwyddau eraill neu wasanaethau yn cael ei ddisgrifio fel pe bai wedi ei gyflenwi yn rhad ac am ddim. Er enghraifft, cynnig pan fo prynu cyfuniad penodol o fwyd yn cynnwys potel o win "yn rhad ac am ddim".

Enghreifftiau ymarferol o sut y mae adrannau 5 - 7 yn gymwys

37. Mae adrannau 5 a 6 o'r Ddeddf yn cynnwys enghreifftiau o sut y byddai'r isafbris cymwys yn gweithredu mewn perthynas â chynigion arbennig. Ond mae enghreifftiau ychwanegol wedi eu darparu isod.
38. Mae isafbris cymwys o £0.50 i gael ei dybio at ddibenion yr hyn sy'n dilyn.

Trafodiadau alcohol amleitem

Enghraifft 1

39. Yn achos cynnig "prynu un, cael un yn rhad am ddim", pan fo dau focs o lager â chryfder o 4% yn cael eu disgrifio fel pe baent yn cael eu cyflenwi am bris un boc, a chan dybio bod pob boc yn cynnwys 10 can â chyfaint o 330 ml yr un, byddai'r ddau focs yn cael eu trin fel pe baent wedi eu cyflenwi am y pris a delir am un boc.
40. Gan gymryd bod un boc wedi ei gyflenwi am bris gwerthu o £14, byddai'r isafbris cymwys mewn perthynas â'r lager yn cael ei gyfrifo fel a ganlyn:
41. I yw £0.50; Cr yw 4 (cryfder yn ôl cyfaint y lager); Cy yw 6.6 litr (cyfanswm cyfaint yr 20 o ganiau).
42. $0.5 \times 4 \times 6.6 = £13.20$
43. Yn yr enghraifft hon, byddai'r pris gwerthu o £14 am y ddau focs yn uwch na'r isafbris cymwys am yr alcohol a gyflenwir, ac ni fyddai unrhyw drosedd o dan adran 2 wedi ei chyflawni.

Enghraifft 2

44. Pe bai 3 boc o gwrw, lager neu seidr ar gael i'w prynu am un pris gwerthu o £30, byddai angen i'r isafbris am bob boc gael ei gyfrifo er mwyn gweithio allan a oedd y pris gwerthu o £30 yn is na'r isafbris cymwys am y cyfuniadau gwahanol o alcohol a allai gael eu cyflenwi.

34. Many of the offers to which this section will apply are likely to be offers involving the supply of alcohol together with food, but it is not limited to such cases.

Special offers: supplementary (section 7)

35. Where the alcohol being supplied in a special offer is of different strengths, section 7(2) requires separate calculations to be made to determine the applicable minimum price in relation to the different strengths of alcohol. The aggregate of those calculations provides the applicable minimum price
36. Section 7(3) ensures that the requirements of section 6 apply where the alcohol supplied with other goods or services is described as supplied free of charge. For example, an offer where the purchase of a particular combination of food included a “free” bottle of wine.

Practical examples of how sections 5 – 7 apply

37. Sections 5 and 6 of the Act include examples of how the applicable minimum price would operate in relation to special offers. But additional examples have been provided below.
38. An applicable minimum price of £0.50 is to be assumed for the purposes of what follows.

Multi-buy alcohol transactions

Example 1

39. In the case of a “buy one, get one free” offer where two boxes of 4% lager are described as being supplied for the price of one box, and assuming each box includes 10 cans at a volume of 330 ml for each can, the two boxes would be treated as having been supplied at the price paid for the single box.
40. Taking the selling price at which a single box was supplied as £14, the applicable minimum price in relation to the lager would be calculated as follows:
41. M is £0.50; S is 4 (the strength by volume of the lager); V is 6.6 litres (the total volume of the 20 cans).
42. $0.5 \times 4 \times 6.6 = £13.20$
43. In this example, the selling price of £14 for the two boxes would be above the applicable minimum price for the alcohol supplied, and no offence under section 2 would have been committed.

Example 2

44. Where 3 boxes of beer, lager or cider were available for purchase at a single selling price of £30, the minimum price for each box would need to be calculated in order to work out whether the selling price of £30 was lower than the applicable minimum price for the different combinations of alcohol which could be supplied.

45. Gan dybio bod y bocs o gwrw yn cynnwys 10 can 440 ml â chryfder yn ôl cyfaint o 6%; bod y bocs o lager yn cynnwys 12 o ganiau 440 ml â chryfder o 4%; a bod y bocs o seidr yn cynnwys 12 o boteli 300 ml â chryfder o 5%:
46. Yr isafbris am y bocs o gwrw fyddai £13.20 (£0.50 X 6 X 4.4 litr, cyfanswm cyfaint y bocs).
47. Yr isafbris am y bocs o lager fyddai £10.56 (£0.50 X 4 X 5.28 litr).
48. Yr isafbris am y bocs o seidr fyddai £9.90 (£0.50 X 5 X 3.96 litr).
49. Pan fo cwsmer wedi dewis prynu dau focs o gwrw a bocs o seidr, yr isafbris cymwys am yr alcohol a gyflenwid fyddai £36.30 (sef cyfanswm yr isafbris o £26.40 am y ddau focs o gwrw a £9.90 am y seidr).
50. Felly, yn yr enghraifft hon, byddai'r pris gwerthu wedi bod yn £6.30 yn is na'r isafbris cymwys am yr alcohol a gyflenwid, a, chan dybio absenoldeb amddiffyniad, byddai'r manwerthwr yn agored i gael ei erlyn am gyflawni'r drosedd o dan adran 2.
51. Ond ni fyddai prynu 3 bocs o seidr gan yr un cwsmer yn arwain at y drosedd o dan adran 2, gan y byddai'r isafbris cymwys am yr alcohol a gyflenwid yn £29.70 (sef cyfanswm yr isafbris o £9.90 am bob bocs o seidr).

*Cynigion sy'n cynnwys alcohol ynghyd â nwyddau eraill neu wasanaethau
Enghraifft*

52. Pan fo tair eitem o fwyd a photel o win yn cael eu cyflenwi am un pris o £10, byddai'r pris gwerthu am y gwin yn cael ei drin fel pe bai'n £10.
53. Pe bai cyfaint y gwin yn 0.75 litr a'i gryfder yn ôl cyfaint yn 14%, yr isafbris cymwys am y gwin fyddai £5.25 (£0.50 X 14 X 0.75).
54. Yn yr enghraifft hon, byddai'r isafbris o £10 yn uwch na'r isafbris cymwys am y gwin, ac ni fyddai'r manwerthwr wedi cyflawni'r drosedd yn adran 2.

Adran 8: Cosbau

55. Mae'r adran hon yn darparu bod person sy'n euog o drosedd o dan adran 2 o'r Ddeddf hon yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol. Mae'r lefelau ar y raddfa safonol wedi eu nodi yn adran 37 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982.

Adran 9: Cosbau penodedig

56. Mae'r adran hon yn caniatáu i swyddog awdurdodedig i awdurdod lleol ddyroddi hysbysiad cosb benodedig i berson y mae gan y swyddog hwnnw reswm dros gredu ei fod wedi cyflawni trosedd o dan adran 2 yn ardal yr awdurdod lleol.

45. Assuming the box of beer comprised 10 440 ml cans of 6% strength by volume; the box of lager comprised 12 440 ml cans of 4% strength; and the box of cider comprised 12 330 ml bottles of 5% strength:
46. The minimum price for the box of beer would be £13.20 (£0.50 X 6 X 4.4 litres, the aggregate volume for the box).
47. The minimum price for the box of lager would be £10.56 (£0.50 X 4 X 5.28 litres).
48. The minimum price for the box of cider would be £9.90 (£0.50 X 5 X 3.96 litres).
49. Where a customer chose to purchase two boxes of beer and a box of cider, the applicable minimum price for the alcohol supplied would be £36.30 (that sum being the aggregate of the £26.40 minimum price for the two boxes of beer and the £9.90 for the cider).
50. So, in this example, the selling price would have been £6.30 below the applicable minimum price for the alcohol being supplied, and, assuming the absence of a defence, the retailer would be liable to prosecution for committing the offence under section 2.
51. But the purchase of 3 boxes of cider by the same customer would not give rise to the offence under section 2, since the applicable minimum price for the alcohol being supplied would be £29.70 (the aggregate of the minimum price of £9.90 for each box of cider).

Offers involving alcohol together with other goods or services

Example

52. Where three food items and a bottle of wine are supplied at a single price of £10, the selling price for the wine would be treated as being £10.
53. If the volume of the wine was 0.75 litres and its strength by volume 14%, the applicable minimum price for the wine would be £5.25 (£0.50 X 14 X 0.75).
54. In this example, the selling price of £10 would be above the applicable minimum price for the wine, and the retailer would not have committed the offence in section 2.

Section 8: Penalties

55. This section provides that a person guilty of an offence under section 2 of this Act is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 3 on the standard scale. The levels on the standard scale are set out in section 37 of the Criminal Justice Act 1982.

Section 9: Fixed penalties

56. This section allows an authorised officer of a local authority to issue a fixed penalty notice (FPN) to a person that that officer has reason to believe has committed an offence under section 2 in the local authority's area.

57. Mae talu hysbysiad cosb benodedig yn rhyddhau'r person y credir ei fod wedi chyflawni trosedd o gael ei euogfarnu o'r drosedd mewn llys.
58. Mae'r adran hefyd yn cyflwyno Atodlen 1 i'r Ddeddf, sy'n gwneud darpariaeth bellach ynghylch y cynnwys a'r weithdrefn sy'n ymwneud â hysbysiadau cosb benodedig.

Adran 10: Camau gorfodi gan awdurdodau lleol

59. Mae is-adran (1) yn darparu y caiff awdurdod lleol ddwyn erlyniadau mewn cysylltiad â throseddau o dan y Ddeddf yn ei ardal, caiff ymchwilio i gwynion mewn cysylltiad â throseddau honedig yn ei ardal a chaiff gymryd camau eraill gyda golwg ar leihau nifer y troseddau o'r fath sy'n digwydd yn ei ardal.
60. Mae is-adran (2) yn darparu bod rhaid i awdurdod lleol ystyried, o leiaf unwaith bob blwyddyn, y graddau y mae'n briodol cynnal rhaglen o gamau gorfodi yn ei ardal, ac i'r graddau y mae'n ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny, gynnal rhaglen o'r fath.
61. Mae is-adran (3) yn darparu, wrth gydymffurfio â'r gofyniad hwn, fod rhaid i awdurdodau lleol yn benodol roi sylw i wella iechyd y cyhoedd ac amddiffyn plant rhag niwed.

Adran 11: Swyddogion awdurdodedig

62. Mae'r adran hon yn esbonio bod unrhyw gyfeiriad yn y Ddeddf at swyddog awdurdodedig i awdurdod lleol yn gyfeiriad at unrhyw berson sydd wedi ei awdurdodi gan yr awdurdod lleol.

Adran 12: Pŵer i wneud pryniannau prawf

63. Mae'r adran hon yn galluogi swyddog awdurdodedig i wneud pryniannau a threfniadau, a sicrhau'r ddarpariaeth o wasanaethau, os yw'r swyddog yn ystyried ei bod yn angenrheidiol at ddiben swyddogaethau'r awdurdod lleol o dan y Ddeddf hon. Mae hyn yn caniatáu i bryniannau prawf, er enghraifft, ddigwydd.

Adran 13: Pwerau mynediad

64. Mae adran 13 yn galluogi swyddog awdurdodedig i fynd, ar unrhyw adeg resymol, i fangre (ac eithrio mangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd) yng Nghymru os oes gan y swyddog seiliau rhesymol dros gredu bod trosedd o dan adran 2 wedi ei chyflawni yn ardal yr awdurdod lleol, a bod y swyddog yn ystyried ei bod yn angenrheidiol mynd i'r fangre at ddiben canfod a yw trosedd o'r fath wedi ei chyflawni.
65. Nid yw'r pŵer hwn i fynd i fangre yn galluogi'r swyddog awdurdodedig i fynd i fangre drwy rym.
66. Os yw'n ofynnol, rhaid i swyddog awdurdodedig ddangos tystiolaeth o'i awdurdodiad cyn mynd i'r fangre.

57. Payment of the FPN discharges the person believed to have committed an offence from being convicted for the offence in court.
58. The section also introduces Schedule 1 to the Act, which makes further provision about the content and procedure relating to FPNs.

Section 10: Enforcement action by local authorities

59. Subsection (1) provides that a local authority may bring prosecutions in respect of offences under the Act in its area, may investigate complaints in respect of alleged offences in its area, and may take other steps with a view to reducing the incidence of such offences in its area.
60. Subsection (2) provides that a local authority must consider, at least once every year, the extent to which it is appropriate to carry out a programme of enforcement in its area, and to the extent that it considers appropriate, carry out such a programme.
61. Subsection (3) provides that in complying with this requirement, local authorities must in particular have regard to improving public health and protecting children from harm.

Section 11: Authorised officers

62. This section explains that any reference in the Act to an authorised officer of a local authority is to any person authorised by the local authority.

Section 12: Power to make test purchases

63. This section enables an authorised officer to make purchases and arrangements, and secure the provision of services if the officer considers it necessary for the purpose of the local authority's functions under this Act. This permits test purchases for example, to take place.

Section 13: Powers of entry

64. Section 13 enables an authorised officer to enter, at any reasonable time, premises (excluding premises used wholly or mainly as a dwelling) in Wales if the officer has reasonable grounds to believe that an offence under section 2 has been committed in the area of the local authority, and the officer considers it necessary to enter the premises for the purpose of finding out whether such an offence has been committed.
65. This power to enter premises does not enable the authorised officer to enter by force.
66. If required, an authorised officer must, before entering the premises, show evidence of their authorisation.

Adran 14: Gwarant i fynd i annedd

67. Mae'r adran hon yn darparu y caiff ynad heddwch ddyroddi gwarant i alluogi swyddog awdurdodedig i fynd i fangre yng Nghymru a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd o dan amgylchiadau penodol.
68. Dim ond pan fo'r ynad heddwch wedi ei fodloni ar sail gwybodaeth ysgrifenedig ar lw fod seiliau rhesymol dros gredu bod trosedd o dan adran 2 wedi ei chyflawni yn ardal yr awdurdod lleol, a'i bod yn angenrheidiol mynd i'r fangre at ddiben cadarnhau a yw trosedd o'r fath wedi ei chyflawni, y caniateir i warant gael ei dyroddi. Os oes angen caiff swyddog awdurdodedig gael mynediad drwy rym.
69. Bydd unrhyw warant o'r fath mewn grym am y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r dyddiad y'i dyroddwyd.

Adran 15: Gwarant i fynd i fangroedd eraill

70. Mae'r adran hon yn darparu y caiff ynad heddwch ddyroddi gwarant i alluogi swyddog awdurdodedig i fynd i unrhyw fangre yng Nghymru (ac eithrio mangroedd a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel anheddau yr ymdrinnir â hwy eisoes o dan adran 14), o dan amgylchiadau penodol. Mae'r adran yn nodi'r amgylchiadau pan ganiateir i warant gael ei dyroddi. Os oes angen caiff swyddog awdurdodedig gael mynediad drwy rym.

Adran 16: Darpariaeth atodol ynghylch pwerau mynediad

71. Mae'r adran hon yn galluogi swyddog awdurdodedig sy'n mynd i fangre o dan adrannau 13, 14 a 15 i fynd ag unrhyw bersonau eraill neu unrhyw gyfarpar y mae'r swyddog yn ystyried ei fod yn briodol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol, os yw meddiannydd mangre yn bresennol ar yr adeg y mae'r swyddog awdurdodedig yn ceisio gweithredu'r warant, fod rhaid i'r meddiannydd gael gwybod enw'r swyddog, fod rhaid i'r swyddog gyflwyno tystiolaeth ddogfennol bod y swyddog yn swyddog awdurdodedig a bod rhaid i'r swyddog gyflwyno'r warant a chyflenwi copi ohoni i'r meddiannydd. Mae'r adran hefyd yn ei gwneud yn ofynnol, os nad yw'r fangre wedi ei meddiannu neu os yw'r meddiannydd yn absennol dros dro, yna wrth adael y fangre fod rhaid i'r swyddog awdurdodedig ei gadael wedi ei diogelu yr un mor effeithiol rhag mynediad anawdurdodedig ag yr oedd pan aeth y swyddog iddi.

Adran 17: Pwerau arolygu, etc.

72. Mae'r adran hon yn rhoi pwerau i swyddogion awdurdodedig sy'n mynd i fangre o dan adrannau 13, 14 a 15 i wneud amryw bethau i ganfod a yw trosedd o dan adran 2 wedi ei chyflawni. Caiff swyddogion gynnal arolygiadau ac archwiliadau o fangre. Caiff swyddogion hefyd ofyn am eitemau, eu harolygu, cymryd samplau ohonynt a/neu fynd â'r eitem(au) a/neu'r samplau o'r fangre. Er enghraifft, efallai y bydd swyddogion yn dymuno edrych ar gofnod teledu cylch cyfyng o'r fangre, cadw cynhyrchion alcoholaidd neu gymryd samplau neu echdynion o'r rhain, neu yn yr un modd gymryd dogfennau neu gopiâu o ddogfennau. Caiff y swyddog awdurdodedig ddadansoddi unrhyw samplau a gymerir.
73. Caiff y swyddog hefyd ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson roi gwybodaeth a chymorth, ond nid yw'n ofynnol i'r person hwnnw ateb unrhyw gwestiynau na

Section 14: Warrant to enter a dwelling

67. This section provides that a justice of the peace may issue a warrant to enable an authorised officer to enter a premises in Wales used wholly or mainly as a dwelling in certain circumstances.
68. A warrant may be issued only where the justice of the peace is satisfied on sworn information in writing that there are reasonable grounds to believe that an offence under section 2 has been committed in the area of the local authority, and that it is necessary to enter the premises for the purpose of establishing whether such an offence has been committed. Entry may be obtained by force if need be.
69. Any such warrant will be in force for the period of 28 days beginning with the date it was issued.

Section 15: Warrant to enter other premises

70. This section provides that a justice of the peace may issue a warrant to enable an authorised officer to enter any premises in Wales (other than premises used wholly or mainly as dwellings which are already dealt with under section 14), in certain circumstances. The section sets out the circumstances in which a warrant may be issued. Entry may be obtained by force if need be.

Section 16: Supplementary provision about powers of entry

71. This section enables authorised officers entering premises under sections 13, 14 and 15, to take with them any other persons or equipment as the officer considers appropriate. It requires that if the occupier of premises is present at the time when the authorised officer seeks to execute the warrant, the occupier must be told the officer's name, the officer must produce documentary evidence that the officer is an authorised officer and the officer must produce the warrant and supply the occupier with a copy of it. The section also requires that if the premises are unoccupied or the occupier is temporarily absent, the authorised officer must leave them as effectively secured against unauthorised entry as the officer found them.

Section 17: Powers of inspection, etc.

72. This section confers powers on authorised officers entering premises under sections 13, 14 and 15 to do various things so as to find out whether an offence under section 2 has been committed. Officers may carry out inspections and examinations of premises. Officers may also request items, inspect them, take samples from them and/or take the item(s) and/or samples from the premises. For example, officers may wish to review CCTV footage of the premises, retain alcoholic products or take samples or extracts of these, or likewise take documents or copies of documents. The authorised officer may analyse any samples taken.
73. The officer may also require information and help from any person, but that person is not required to answer any questions or produce any document which they would be entitled to refuse to answer or produce in the course of court proceedings in England and Wales.

chyflwyno unrhyw ddogfen y byddai ganddo hawl i wrthod eu hateb neu ei chyflwyno yn ystod achos llys yng Nghymru a Lloegr.

74. Rhaid i'r swyddog awdurdodedig adael yn y fangre ddatganiad sy'n rhoi manylion unrhyw eitemau sydd wedi eu cymryd, ac sy'n nodi'r person y caniateir gofyn iddo i'r eiddo gael ei ddychwelyd.

Adran 18: Rhwystro etc. swyddogion

75. Mae'r adran hon yn darparu bod person yn cyflawni trosedd os yw'n rhwystro'n fwriadol swyddog awdurdodedig rhag arfer ei swyddogaethau o dan adrannau 13 i 17.
76. Mae person yn cyflawni trosedd os yw, heb achos rhesymol, yn methu â darparu i swyddog awdurdodedig gyfleusterau sy'n ofynnol yn rhesymol o dan adran 17(1) neu os yw'n methu â chydymffurfio â gofyniad o dan adran 17(1)(b) neu (d) megis darparu gwybodaeth sy'n ymwneud â materion o fewn rheolaeth y person hwnnw.
77. Mae person sydd wedi ei ddyfarnu'n euog o drosedd o dan yr adran hon yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol. Mae'r lefelau ar y raddfa safonol wedi eu nodi yn adran 37 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982.

Adran 19: Eiddo a gedwir: apelau

78. Mae'r adran hon yn galluogi person a chanddo fuddiant mewn unrhyw beth yr eir ymaith ag ef o'r fangre gan swyddog awdurdodedig o dan adran 17(1)(c) i wneud cais i lys ynadon am orchymyn sy'n gofyn i'r eiddo gael ei ryddhau. Gan ddibynnu ar ystyriaeth y llys i gais, caiff wneud gorchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r eiddo a gedwir gael ei ryddhau.

Adran 20: Eiddo a gyfeddir: digolledu

79. Mae'r adran hon yn darparu hawl i berson a chanddo fuddiant mewn unrhyw beth y mae meddiant wedi ei gymryd ohono o dan adran 17(1)(c) i wneud cais i lys ynadon i gael ei ddigolledu. Pan fo'r amgylchiadau a nodir yn is-adran (2) wedi eu bodloni, caiff y llys orchymyn i'r awdurdod lleol ddigolledu'r ceisydd. Yr amgylchiadau yw bod eiddo wedi ei gymryd; nad oedd yn angenrheidiol cymryd yr eiddo i ddarganfod a oedd trosedd o dan adran 2 wedi ei chyflawni; bod y ceisydd wedi dioddef colled neu ddifrod o ganlyniad; ac nad oedd y golled na'r difrod yn deillio o esgeulustod neu ddiffyg y ceisydd ei hun.

Adran 21: Adroddiad ar weithrediad ac effaith y Ddeddf hon

80. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd 5 mlynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y daw adran 2 i rym, i osod gerbron y Cynulliad adroddiad ar weithrediad ac effaith y Ddeddf hon yn ystod y cyfnod hwnnw. Ar ôl i'r adroddiad gael ei osod gerbron y Cynulliad, rhaid iddo gael ei gyhoeddi hefyd.
81. Wrth lunio eu hadroddiad, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â Chynulliad Cenedlaethol Cymru a'r personau hynny y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

74. The authorised officer must leave on the premises a statement detailing any items that have been taken, and identifying the person to whom a request for the return of property may be made.

Section 18: Obstruction etc. of officers

75. This section provides that a person commits an offence if they intentionally obstruct an authorised officer from exercising their functions under sections 13 to 17.
76. A person commits an offence if, without reasonable cause, they fail to provide an authorised officer with facilities that are reasonably required under section 17(1) or they fail to comply with a requirement under section 17(1)(b) or (d) such as providing information relating to matters within that person's control.
77. A person found guilty of an offence under this section is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 3 on the standard scale. The levels on the standard scale are set out in section 37 of the Criminal Justice Act 1982.

Section 19: Retained property: appeals

78. This section enables a person with an interest in anything taken away from the premises by an authorised officer under section 17(1)(c) to apply to a magistrates' court for an order requesting the release of the property. Depending on the court's consideration of an application, it may make an order requiring the release of the retained property.

Section 20: Appropriated property: compensation

79. This section provides a right for a person with an interest in anything which has been taken possession of under section 17(1)(c) to apply to a magistrates' court for compensation. Where the circumstances set out in subsection (2) are satisfied, the court may order the local authority to pay compensation to the applicant. The circumstances are that property has been taken; that it was not necessary to take the property to discover whether an offence under section 2 had been committed; that the applicant has suffered loss or damage as a result; and that the loss or damage was not due to the applicant's own neglect or default.

Section 21: Report on operation and effect of this Act

80. This section places a duty on the Welsh Ministers, as soon as practicable after the end of 5 years beginning with the day on which section 2 comes into force, to lay before the Assembly a report on the operation and effect of this Act during that period. After the report has been laid before the Assembly, it must also be published.
81. In the preparation of their report, the Welsh Ministers must consult the National Assembly for Wales and those persons they consider appropriate.

Adran 22: Cyfnod para darpariaethau'r isafbris

82. Mae'r adran hon yn darparu i'r gyfundrefn isafbris a sefydlir gan y Ddeddf beidio â chael effaith ar ôl 6 mlynedd o'r dyddiad y daw adran 2 i rym, oni bai bod Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau, cyn i'r gyfundrefn beidio â chael effaith, sy'n darparu fel arall. Ni all Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i'r effaith hon tan o leiaf 5 mlynedd ar ôl i adran 2 ddod i rym. Bydd yr adroddiad y cyfeirir ato yn adran 21 yn cael ei ystyried wrth benderfynu pa un ai i wneud rheoliadau o'r fath.
83. Os na wneir rheoliadau o'r fath erbyn diwedd 6 mlynedd, mae darpariaethau'r isafbris wedi eu diddymu.
84. Os yw darpariaethau'r isafbris wedi eu diddymu ar ôl 6 mlynedd, mae is-adran (3) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud unrhyw ddarpariaeth angenrheidiol neu hwylus o ganlyniad i'r ffaith honno. Byddai hyn yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth drosiannol, ddarfodol neu arbed. Felly, er enghraifft, pe bai Deddf arall yn croesgyfeirio at ddarpariaethau'r isafbris cyn iddynt gael eu diddymu, gallai'r pŵer hwn gael ei ddefnyddio i ddileu'r cyfeiriad hwnnw.
85. Mae is-adran (4) yn diffinio'r hyn a olygir gan ddarpariaethau'r isafbris at y dibenion hyn.

Adran 23: Cymhwyso i'r Goron

86. Mae'r adran hon yn darparu bod y Goron yn rhwym wrth ddarpariaethau'r Ddeddf yn yr un ffordd ag y mae'n rhwym o dan adran 195 o Ddeddf Trwyddedu 2003 wrth ddarpariaethau'r Ddeddf honno.
87. Mae hyn yn golygu y bydd darpariaethau'r Ddeddf yn gymwys i'r Goron ac i eiddo'r Goron yn ddarostyngedig i eithriadau penodol.

Adran 24: Troseddau a gyflawnir gan bartneriaethau a chymdeithasau anghorfforedig eraill

88. Mae adran 24 yn gwneud darpariaeth ynghylch dwyn achos am drosedd o dan y Ddeddf yr honnir ei bod wedi ei chyflawni gan bartneriaethau neu gymdeithasau anghorfforedig eraill ac mewn cysylltiad â dwyn achos o'r fath.

Adran 25: Atebolrwydd uwch-swyddogion etc.

89. Pan gyflawnir trosedd o dan y Ddeddf gan gorff corfforaethol, partneriaeth neu gymdeithas anghorfforedig ac eithrio partneriaeth, mae'r adran hon yn ei gwneud yn bosibl, o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn is-adran (2), i unigolion sy'n dal swyddi cyfrifol o fewn y corff, y bartneriaeth neu'r gymdeithas berthnasol (yr "uwch-swyddogion" a ddiffinnir gan yr adran) fod yn droseddol atebol hefyd am drosedd.

Adran 26: Rheoliadau

90. Mae'r adran hon yn esbonio sut y mae pwerau i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon i gael eu harfer ac yn nodi'r weithdrefn gymwys sydd i gael ei dilyn wrth wneud y rheoliadau hynny.

Section 22: Duration of minimum pricing provisions

82. This section provides for the minimum pricing regime established by the Act to cease to have effect after 6 years from the date on which section 2 comes into force, unless the Welsh Ministers make regulations, before the regime ceases to have effect, providing otherwise. The Welsh Ministers cannot make regulations to this effect until at least 5 years after section 2 comes into force. The report referred to in section 21 will feed into the decision whether to make such regulations.
83. If no such regulations are made by the end of 6 years, the minimum pricing provisions are repealed.
84. If the minimum pricing provisions are repealed after 6 years, subsection (3) provides that the Welsh Ministers may, by regulations, make any necessary or expedient provision as a result of that fact. This would include any transitional, transitory or saving provision. So for instance, if before the repeal of the minimum pricing provisions another Act cross-referred to them, this power could be used to remove that reference.
85. Subsection (4) defines what is meant by the minimum pricing provisions for these purposes.

Section 23: Crown application

86. This section provides that the Crown is bound by the provisions of the Act in the same way as it is bound under section 195 of the Licensing Act 2003 by the provisions of that Act.
87. This means that the provisions of the Act will apply to the Crown and to Crown property subject to certain exceptions.

Section 24: Offences committed by partnerships and other unincorporated associations

88. Section 24 makes provision about and in connection with bringing proceedings for an offence under the Act alleged to have been committed by partnerships or other unincorporated associations.

Section 25: Liability of senior officers etc.

89. Where an offence under the Act is committed by a body corporate, partnership or an unincorporated association other than a partnership this section makes it possible, in the circumstances described in subsection (2), for individuals holding positions of responsibility within the relevant body, partnership or association (the “senior officers” defined by the section) to also be criminally liable for an offence.

Section 26: Regulations

90. This section explains how powers to make regulations under this Act are to be exercised and sets out the applicable procedure to be followed in making those regulations.

Adran 27: Dehongli

91. Mae'r adran hon yn diffinio'r hyn a olygir gan alcohol, at ddibenion y Ddeddf. Mae hefyd yn diffinio termau allweddol eraill a ddefnyddir yn y Ddeddf, gan gynnwys "awdurdod lleol", "cryfder" alcohol, "gwerthu drwy fanwerthu" a "mangre".

Adran 28: Dod i rym

92. Mae'r adran hon yn nodi'r darpariaethau yn y Ddeddf a fydd yn cael effaith ar y diwrnod ar ôl dyddiad y Cydsyniad Brenhinol (sef adrannau 26 - 30); a'r rheini a fydd yn dod i rym yn unol â gorchymyn cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru (sef y gweddill).

Adran 29: Hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r isafbris am alcohol

93. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gymryd camau i hybu ymwybyddiaeth o gychwyn y drefn o ran yr isafbris a gyflwynir gan y Ddeddf, cyn i'r drefn honno gychwyn. Mae'n pennu bod rhaid i'r camau hyn gynnwys hybu ymwybyddiaeth o'r risg i iechyd yn sgil goryfed a sut y bwriedir lleihau lefelau yfed alcohol yn sgil cyflwyno'r isafbris yng Nghymru.

Section 27: Interpretation

91. This section defines what is meant by “alcohol”, for the purposes of the Act. It also defines other key terms used in the Act, including “local authority”, “premises”, “sale by retail” and “strength” of alcohol.

Section 28: Coming into force

92. This section sets out the provisions of the Act that will come into effect on the day after the date of Royal Assent (being sections 26 - 30); and those that will come into force in accordance with a commencement order made by the Welsh Ministers (being the remainder).

Section 29: Promoting public awareness of minimum pricing for alcohol

93. This section places a duty on Welsh Ministers to take steps to promote awareness of the commencement of the minimum pricing regime introduced by the Act, ahead of that commencement. It specifies that the steps taken in this regard must include promoting awareness of the health risks of excessive alcohol consumption and of how the introduction of minimum pricing in Wales is intended to reduce alcohol consumption.

Atodlen 1: Cosbau Penodedig

94. Mae Atodlen 1 i'r Ddeddf hon yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â chosbau penodedig.
95. Ymhlith y rhain mae cynnwys gofynnol yr hysbysiad cosb a'r cyfnodau penodedig ar gyfer talu. Mae'r Atodlen yn darparu mai swm cosb benodedig yw £200 ond y gellir lleihau hyn i £150 os telir y gosb o fewn 15 o ddiwrnodau i gael yr hysbysiad cosb benodedig. Mae hefyd yn cynnwys darpariaeth sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio swm y cosbau hynny drwy reoliadau.
96. Mae paragraffau 15 ac 16 yn galluogi person i ofyn am gael sefyll prawf am y drosedd mewn llys yn lle talu'r gosb benodedig. Mae paragraff 17 yn caniatáu i swyddogion awdurdodedig yr awdurdod dyroddi lleol dynnu hysbysiad cosb benodedig yn ôl. Mae paragraff 18 yn atal awdurdod lleol rhag defnyddio symiau a geir o hysbysiadau cosb benodedig ac eithrio at ddiben ei swyddogaethau gorfodi o dan y Ddeddf hon ac unrhyw reoliadau a wneir odani.

COFNOD Y TRAFODION YNG NGHYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

97. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cyfnod o hynt y Ddeddf drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir cael Cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth am hynt y Ddeddf hon ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar:

<http://senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IID=20029>

Cyfnod	Dyddiad
Cyflwynwyd	23 Hydref 2017
Cyfnod 1 - Dadl	13 Mawrth 2018
Cyfnod 2 Pwyllgor Craffu - ystyried y gwelliannau	3 Mai 2018
Cyfnod 3 Cyfarfod Llawn - ystyried y gwelliannau	12 Mehefin 2018
Cyfnod 4 Cymeradwywyd gan y Cynulliad	19 Mehefin 2018
Y Cydsyniad Brenhinol	9 Awst 2018

©® Hawlfraint y Goron 2018

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Schedule 1: Fixed Penalties

94. Schedule 1 to this Act contains provisions relating to fixed penalties.
95. These include the required contents of the penalty notice and the specified periods for payment. The Schedule provides that the amount of a fixed penalty is £200 but this can be reduced to £150 if paid within 15 days of when the fixed penalty notice is given. It also contains provision enabling the Welsh Ministers to amend those penalty amounts by regulations.
96. Paragraphs 15 and 16 enable a person to request to be tried for the offence in court instead of paying the fixed penalty. Paragraph 17 permits authorised officers of the issuing local authority to withdraw a fixed penalty notice. Paragraph 18 prevents a local authority from using amounts received from fixed penalty notices otherwise than for the purpose of its enforcement functions under this Act and any regulations made under it.

RECORD OF PROCEEDINGS IN NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

97. The following table sets out the dates for each stage of the Act's passage through the National Assembly for Wales. The Record of Proceedings and further information on the passage of this Act can be found on the National Assembly for Wales' website at: <http://senedd.assembly.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=20029>

Stage	Date
Introduced	23 October 2017
Stage 1 - Debate	13 March 2018
Stage 2 Scrutiny Committee - consideration of amendments	3 May 2018
Stage 3 Plenary - consideration of amendments	12 June 2018
Stage 4 Approved by the Assembly	19 June 2018
Royal Assent	9 August 2018

© Crown copyright 2018

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.



Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), part of Williams Lea Tag, ac ar gael o:

Arlein
www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost

TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070
Archebion ffacs: 0333 202 5080
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0333 202 5077

TSO@Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill

Published by TSO (The Stationery Office), part of Williams Lea Tag, and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone, Fax & E-mail

TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070
Fax orders: 0333 202 5080
E-mail: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0333 202 5077

TSO@Blackwell and other Accredited Agents

ISBN 978-0-348-12003-5



9 780348 120035